Rhifyn 2, Mawrth 08 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Holi am eich barn

Yn ddiweddar, anfonwyd llythyr a holiadur oddi wrth UCAC i'ch cyfeiriad cartref. Ymgais oedd hyn i dderbyn eich barn chi, aelodau UCAC am y cynnig cyflog diweddaraf, er mwyn i'r Cyngor Cenedlaethol derbyn eich arweiniad ynghylch sut a phryd i ymateb i'r cynnig hwnnw. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bob un ohonoch a lenwodd yr holiadur a'i ddychwelyd.

Casglwyd eich ymatebion, a'u trafod yn y Cyngor Cenedlaethol ar y 4ydd Mawrth 2008.

Roedd y mwyafrif llethol o'r rhai ymatebodd, sef 92.18% ohonynt, yn cytuno gydag argymhelliad y Cyngor Cenedlaethol i beidio â gweithredu'n ddiwydiannol ar hyn o bryd, ond i aros hyd nes y gwyddom beth fydd ymateb y Llywodraeth yn Llundain i argymhelliad yr STRB.

Cafwyd bod mwyafrif o blaid gweithredu'n ddiwydiannol trwy streicio yn y dyfodol, os na fydd y cynnig yn cael ei wella – 43.88% o'r rhai ymatebodd o blaid a 29.88% yn erbyn. Nid oedd pawb wedi ateb pob rhan o'r holiadur. Er bod hyn yn fwyafrif, mae'n llai na 50% o'r rhai wnaeth ymateb.

Roedd canrannau sylweddol sef, 65% a 60% o'r rhai ymatebodd, o blaid gweithredu'n ddiwydiannol trwy dynnu'n ôl ewyllys dda a lobïo'r Aelodau Seneddol.

Mae'r Cyngor Cenedlaethol, ar ôl ystyried eich barn a'ch arweiniad, wedi penderfynu monitro'r sefyllfa yn ofalus. **Credir mai nawr yw'r amser i lobïo eich Aelod Seneddol.** Wedi ei amgáu gyda'r rhifyn hwn o'r *Athro* mae cerdyn post a rhestr o gyfeiriadau Aelodau Seneddol Cymru. Gofynnir i chi ysgrifennu cyfeiriad eich Aelod Seneddol chi ar y cerdyn, rhoi stamp ail ddosbarth arno, ei lofnodi a'i bostio gynted â phosibl, os gwelwch yn dda. **Mae'n bwysig bod yr Aelod Seneddol yn deall cryfder teimladau aelodau UCAC am agwedd y Llywodraeth tuag atynt.**

Diolch i chi unwaith eto am ymateb, a thrwy hynny sicrhau bod unrhyw weithredu y mae'r Cyngor Cenedlaethol yn ei ystyried yn unol â'ch barn chi, yr aelodau.

Gruff Hughes, Ysgrifennydd Cyffredinol

Cynhadledd Flynyddol UCAC

Cofiwch am y Gynhadledd hon sydd i'w chynnal ar 25-26 Ebrill yng Ngwesty'r Parkway, Cwmbrân. Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw'r siaradwr gwadd. Penderfyniadau'r Gynhadledd sydd yn ffurfio polisïau'r undeb. Yn ogystal â bod yn gyfle i drafod a dadlau am brif faterion byd addysg, mae hefyd yn gyfle i gymdeithasu ac ymlacio gydag athrawon ledled Cymru. Gall unrhyw aelod fynychu'r Gynhadledd ar ei gostau ei hun a heb bleidlais ond, trwy gynrychioli'r Gymdeithas Sir, cewch eich costau llawn a phleidlais.

Cysylltwch â Nan Williams yn y Brif Swyddfa i gael manylion pellach.
ucac@athrawon.com

t2 Codi ffi cofrestru t3 Cerddoriaeth a Cholli Clyw t4 Mapiau meddwl yn y Gymraeg

Codi ffi cofrestru Cyngor Addysgu Cymru

Mae'n siŵr eich bod i gyd bellach wedi derbyn llythyr gan Gyngor Addysgu Cymru yn datgan eu bod yn codi eu tâl cofrestru o £33 i £45 y flwyddyn. Mae'n orfodol cofrestru â'r Cyngor Addysgu os ydych am ddysgu mewn ysgol yng Nghymru sy'n cael ei ariannu gan y Cynulliad. Os nad ydych wedi cofrestru, nid oes hawl gan yr ysgol i'ch cyflogi. Mae hyn yn cynnwys athrawon cyflenwol.

Mae UCAC yn anfodlon iawn bod y ffi cofrestru yn codi mor sylweddol - ychydig dros 36%. Piti nad yw cyflogau athrawon yn codi'r un canran! Mae'r llyfr glas Tâl ac Amodau Gwaith Athrawon yn nodi bod y ffi o £33 yn Lloegr a Chymru i'w dalu ar ran yr athro gan y corff priodol, sef yr Awdurdod Lleol. Ond mae'r ffi cofrestru yng Nghymru £12 yn fwy. Pwy sy'n talu'r gwahaniaeth? Wel y chi, ynte. Ond sut?

Gofynnais yr un cwestiwn mewn cyfarfod diweddar rhwng yr undebau athrawon yng Nghymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Derbyniwyd atebion amrywiol. Yn bennaf, nid oedd unrhyw un yn siŵr sut roeddynt am gasglu'r arian. Credai rhai o'r Cyfarwyddwyr bod yr Awdurdod am dalu'r ffi yn llawn ar ran yr athro; eraill y byddant yn talu'r £33, a'r athro i dalu'r gweddill. Mae UCAC yn cwestiynu hawl yr Awdurdod i dynnu arian o'ch cyflog chi heb eich caniatâd chi. A yw eich Awdurdod chi wedi eich rhybuddio eu bod yn bwriadu tynnu £12 o'ch cyflog? Gwn nad yw £12 yn swm aruthrol, ond mae'r egwyddor yn un bwysig yn nhyb UCAC. Holwch eich Awdurdod beth maen nhw am ei wneud – ei dalu'n llawn ar eich rhan, neu dynnu £12 o'ch cyflog i dalu'r gwahaniaeth?

Cyflenwi a thalu ffi cofrestru'r Cyngor Addysgu – sut i hawlio ad-daliad

Mae'n rhaid i athrawon cyflenwi sy'n gweithio ar gytundebau dyddiol dalu'r ffi yn uniongyrchol i'r Cyngor Addysgu, ac maent i dderbyn taleb (*voucher*) gan y Cyngor Addysgu. Unwaith y byddant wedi gwneud diwrnod o waith cyflenwi, mae angen cyflwyno'r daleb i'r Awdurdod, a bydd yr Awdurdod yn ad-dalu'r ffi i'r athro. Felly, os ydych yn athro cyflenwi, gofalwch eich bod yn derbyn taleb er mwyn derbyn ad-daliad o'r ffi cofrestru. Yn anffodus, nid yw athrawon sy'n gweithio i asiantaethau yn cael derbyn y ffi yn ôl, gan mai'r asiantaeth, ac nid yr Awdurdod, sy'n eu talu nhw.

Ydych chi angen gloywi'ch iaith?

Dw i'n siŵr ein bod ni i gyd yn meddwl bod ein Cymraeg yn berffaith. Efallai eich bod yn gweithio mewn ysgol neu goleg ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac yn medru dweud nad oes dim yn bod ar eich Cymraeg, ond …

Dw i wedi dysgu yng ngogledd-ddwyrain Cymru ar hyd fy ngyrfa mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Heblaw am saith tymor amser maith yn ôl, dysgu drwy gyfrwng y Saesneg fu fy hanes. Pan welais yr hysbyseb am y Cynllun Sabothol dyma fi'n gweld cyfle i drawsnewid sefyllfa anodd iawn i mi – sut y gallwn ddangos fy mod yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg pan nad wyf yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu o ddydd i ddydd?

I dorri stori hir yn fyr, gyrrais y cais i mewn yn yr Hydref; cefais y cyfweliad dros y ffôn yn fuan wedyn a dechreuais ar y cwrs ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Ar ôl asesiad cychwynnol llafar ac ysgrifenedig (a dydi hwn ddim mor llym ag y mae'n swnio – mater o baratoi cyflwyniad byr i'r grŵp ac yna ysgrifennu ar bapur yr hyn a ddywedoch) yna mae'r gwaith yn dechrau.

Cefais fy nghopi o'r 'Llawlyfr Gloywi Iaith' a sylweddolais yn fuan y buaswn yn troi tuag at hwn yn feunyddiol i ddatrys problemau iaith fyddai'n codi yn fy ngwaith. Cefais hefyd gopi o'r 'Termiadur' yn ogystal â chopi o 'Cysgeir' a 'Cysill' i'w gosod ar fy nghyfrifiadur. Cefais liniadur hefyd i wneud fy ngwaith arno ond mae'n rhaid i mi roi hwn yn ôl ar ddiwedd y cwrs, gwaetha'r modd!

Ar ôl ychydig o wythnosau aethom **i Landrindod am ddeuddydd** i gyfarfod y grŵp oedd yn gwneud y Cynllun yn y De. Yno hefyd cawsom ein dysgu gan Dr Cen Williams ar sut i grynhoi a thrawsieithu yn ogystal â chael ein dysgu am egwyddorion Cymraeg Clir.

Ymhellach ymlaen yn y cwrs, roedd rhaid **gweld ymarfer da** ym myd addysg Gymraeg a hoffwn ddiolch o galon i bennaeth a staff Ysgol Gymraeg Croes Atti, y Fflint am y diwrnod hapus a gefais yn eu plith yn awyrgylch hyfryd a chartrefol yr ysgol.

Elfen arall o'r Cynllun ydi'r **sesiynau gwaith personol** sy'n cael eu gwneud yn ddyddiol; paratoi gwersi, creu adnoddau a chyfieithu unedau o waith neu bolisïau ydi'r nod yma.

Yn olaf, er mwyn hybu hyder yn ein hiaith lafar rydym yn **paratoi cyflwyniadau a sesiynau micro ddysgu**. Ar gyfer y micro ddysgu rhaid creu gwers tua hanner awr o hyd ac mae'n cael ei recordio ar fideo. Os ydych yn gweithio yn y sector addysg bellach, yna byddwch yn creu sefyllfa asesu neu gyfarfod bugeiliol. Ceir **adborth manwl a chyflawn** sy'n canolbwyntio ar ein defnydd o'r Gymraeg a sut y gallwn wella.

Mae'n tynnu'n araf tuag at ddiwedd Chwefror bellach a chefais hanner tymor o'r Cynllun Sabothol. Ydi, mae'n **waith caled** ond ar y llaw arall dim ond ar un peth sydd raid i mi ganolbwyntio. Mae **fy hyder yn y Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol** ac mae'r cwrs yma wedi bod o fudd mawr i mi. Mae'r tiwtoriaid yn ardderchog ac yn broffesiynol iawn a gallaf ond diolch yn fawr iawn i Eleri, Sara ac Elen am y ffordd y maent wedi ein dysgu. Dw i'n siŵr y buasai'r 'myfyrwyr' yn y De yn ategu hyn hefyd am eu tiwtoriaid hwythau.

Mae hi wedi bod yn nod gennyf i fynd yn ôl i ddysgu i'r Gorllewin ers sawl blwyddyn bellach. Amser a ddengys a allaf wireddu hyn ond credaf y bydd gennyf y sgiliau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd y cwrs yma. Dim ond un pryder sydd gennyf, **pam fod cyn lleied o'r Gogledd yn gyrru cais** am le ar y cwrs? Cofiwch, mae yna le i loywi iaith y rhan fwyaf ohonom, felly dowch ymlaen Gogs, tyrrwch i Fangor cyn gynted ag sydd bosib!

Os oes gennych ddiddordeb yn y cwrs, yna mae dwy wefan y gallwch edrych arnynt:
www.bangor.ac.uk/ar/cb/ Gwefan Canolfan Bedwyr ydi hon - y bobl sy'n rhedeg y Cynllun drwy Gymru gyfan.
www.cynllunsabothol.org Dyma wefan swyddogol y Cynllun. Os ewch yno, dewiswch y cysylltiad 'Cymarfer', yna dewiswch wneud y gwersi Cymarfer CS ac yna gwnewch y profion. Bydd yn amlwg a ydych angen gloywi eich Cymraeg ai peidio!

Gwyndaf Jones

Mae'r manylion a'r ddolen ar gael hefyd o wefan UCAC.

Cerddoriaeth a Cholli Clyw

Yn ôl ymchwil gan yr RNID, mae 90 y cant o bobl ifanc yn profi symptomau niwed i'r clyw ar ôl noson allan, ond eto'n gwneud dim i'w atal.

Dengys adroddiad 'Like it Loud?' yr elusen fod pobl ifanc sy'n mynd i glybiau, gigiau a bariau yn profi symptomau niwed i'r clyw ar ôl eu nosweithiau allan, fel clyw aneglur neu dinitws – sef atsain yn y clustiau. Yn aml nid ydynt yn gwybod sut i warchod eu hunain.

Gall pobl sy'n hoff o gerddoriaeth, cerddorion a throellwyr (DJs) gymryd camau syml i ddiogelu eu hunain rhag desibelau niweidiol ar noson allan neu wrth berfformio:

- Cymryd saib pum munud am bob awr o wrando er mwyn rhoi seibiant i'r clustiau
- Peidio â sefyll wrth ymyl uchelseinyddion mewn tafarndai, clybiau, gigiau a chyngherddau
- Cymryd seibiannau rheolaidd i ffwrdd o'r llawr dawnsio a defnyddio mannau ymlacio i roi seibiant i'r clustiau rhag cerddoriaeth uchel
- Gwisgo plygiau clustiau arbennig ar gyfer clybiau a gigiau, sy'n lleihau cryfder y sain ond nid ei hansawdd - ar gael am tua £10 - £15 mewn nifer o siopau ar y stryd fawr.

Ewch i www.dontlosethemusic.com am ragor o wybodaeth.

Prawf Clyw RNID

Amcangyfrifir bod gan 4 miliwn o bobl yn y DU broblemau clywed, ond eu bod yn gwneud dim am y peth.

Awgryma ymchwil gan yr RNID y bydd 41% o bobl yn cuddio'r faith eu bod yn dechrau mynd yn drwm eu clyw oherwydd embaras.

Mae'r RNID yn eich annog i wneud prawf clyw 5 munud dros y ffôn drwy ffonio 0845 600 5555 (pris galwad lleol). Byddai hwn yn gam cyntaf pwysig i fynd i'r afael ag unrhyw broblem. Mae trafferthion clywed yn anabledd cudd sy'n effeithio ar berfformiad pobl yn y gwaith, yn ogystal ag yn y cartref, ac ni ddylid ei anwybyddu.

I gael rhagor o wybodaeth gweler www.breakingthesoundbarrier.org.uk

RNID Cymru yw'r elusen genedlaethol sy'n gweithio er mwyn newid y byd i'r 480,000 o bobl fyddar a phobl drwm eu clyw yng Nghymru. Rhif ffôn: 029 20 333034
Ebost – rnidcymru@rnid.org.uk Gwefan: www.rnid.org.uk

Siopa!

Mae Dorothy Perkins yn rhoi gostyngiad o 10% i athrawon. Ymddengys bod dangos cerdyn undeb, slip cyflog neu brawf o'r Cyngor Addysg Cyffredinol Cymru yn fodd i gael disgownt. Mae'n werth i chi holi wrth siopa.

Britannia Rescue – rhag i'r car dorri i lawr

Cofiwch hefyd y cewch ostyngiad o 10% oddi ar wasanaeth adfer/torri i lawr ar ochr y ffordd gan Britannia Rescue *(breakdown cover).* I gael y gostyngiad mae'n rhaid i chi ddyfynnu 'UCAC' wrth ffonio 0800 591 563.

Gallech hefyd arbed £5 ychwanegol drwy brynu ar-lein yn www.britanniarescue.com/schemes/a1scheme.php

Arholwyr cyfrwng-Cymraeg – cyfleoedd gwaith

Mae ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg yn dysgu amryw o bynciau. Mae eisiau mwy o arholwyr â phrofiad priodol a all arholi gwaith cwrs a phapurau arholi ymgeiswyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ran y cyrff dyfarnu, mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am bobl fyddai'n gweithio ar eu liwt eu hunain i asesu arholiadau TGAU a Safon Uwch yn y pynciau canlynol:

- **Astudiaethau Hamdden**
- **Meddwl yn Feirniadol**
- **Cymdeithaseg**
- **Seicoleg**
- **Dawns**
- **Technoleg Cerddoriaeth**
- **Llywodraeth a Gwleidyddiaeth**

Caiff arholwyr eu hyfforddi a'u talu gan y cyrff dyfarnu. Yn ogystal â marcio papurau arholi, o ran rhai pynciau bydd eisiau ymweld ag ysgolion er mwyn asesu arholiadau ymarferol. Fel rheol, byddai'n rhaid i arholwyr wneud peth asesu trwy gyfrwng y Saesneg, fel y gallai'r cyrff dyfarnu sicrhau cysondeb yn y marcio.

Rhaid wrth Gymraeg rhugl a phrofiad addysgu perthnasol.

Croesawir ymholiadau am gyfleoedd mewn pynciau eraill hefyd, gan fod galw cyson am arholwyr cyfrwng-Cymraeg.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Dr Miranda Morton ar 029-2037 5433 neu miranda.morton@wales.gsi.gov.uk.

Nia Gruffydd, Rheolwr Golygyddol (Y Dyniaethau), CBAC; Gill Miller, Golygydd ***Atlas Cymru****, Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a Raye Scott, Swyddog Daearyddiaeth CBAC.*

Cyhoeddi *Atlas Cymru*

Cyfeirlyfr cyfoes hanfodol am Gymru yw *Atlas Cymru* sy'n cyflwyno cyfoeth o wybodaeth ac yn ymdrin ag agweddau allweddol ar fywyd a thirlun Cymru fodern. Mae'r atlas yn rhoi sylw manwl i bob rhanbarth ac mae'n llawn mapiau a diagramau manwl gywir a hawdd eu darllen. Ymhlith y themâu sy'n derbyn sylw y mae *Cymru'n Newid, Hinsawdd, Heriau Amgylcheddol* ac *Ansawdd Bywyd.*

Cyhoeddwyd yr atlas yn Gymraeg a Saesneg; mae'n cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n cyd-blethu i'w gilydd, gan gynnwys cartograffeg ddigidol, diagramau a delweddau o Gymru.

Comisiynwyd *Atlas Cymru* gan CBAC ac APADGOS (Llywodraeth Cynulliad Cymru) a chyhoeddwyd yr argraffiadau Cymraeg a Saesneg gan Wasg Prifysgol Rhydychen.

Er iddo gael ei gynllunio i gefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, mae'r atlas hefyd yn addas i'w ddefnyddio fel cyfeirlyfr safonol yn y cartref a'r swyddfa.

Atlas Cymru, **Gol. Gill Miller, Gwasg Prifysgol Rhydychen, ISBN 978-0-19-831900-9, £8.99**
Atlas of Wales**, Ed. Gill Miller, Oxford University Press, ISBN 978-0-19-831901-6, £8.99.**

Mapiau meddwl yn y Gymraeg

Meddalwedd ar gyfer creu mapiau meddwl yw iMindMap ac mae ar gael yn y Gymraeg. Mae iMindMap yn arf ar y cyfrifiadur sy'n efelychu technegau mapio meddwl fel y'i disgrifir gan Tony Buzan yn ei lyfrau ar fapiau meddwl. Yn wir, iMindMap yw'r unig feddalwedd mapiau meddwl sy'n cael ei gymeradwyo gan Tony Buzan.

Gellir defnyddio mapiau meddwl ar gyfer amryw o dasgau ac ar draws y cwricwlwm er mwyn:

- cynhyrchu syniadau
- darganfod datrysiadau
- dangos cysyniadau ar ffurf diagram
- dadansoddi digwyddiadau
- strwythur gwaith cwrs
- adolygu
- meithrin gwaith grŵp
- gwella'r cof i gofio ffeithiau, geiriau a delweddau

Gwyddoniaeth – defnyddio mapiau meddwl i amlinellu prosesau biolegol neu i ddangos priodweddau deunyddiau.
Cymraeg a Saesneg – gall mapiau meddwl agor yr ymennydd ar gyfer ysgrifennu creadigol.
Hanes – bydd defnyddio mapiau meddwl yn crynhoi ffeithiau am ddigwyddiadau hanesyddol.
Ieithoedd Tramor Modern – gallwch ddefnyddio mapiau meddwl i ddysgu geirfa newydd a ffurfio cystrawen geiriau.



Gellir defnyddio iMindMap gyda bwrdd gwyn rhyngweithiol neu ar sgrin gyffredin gan yr athro neu'r disgybl, gan unigolion neu grwpiau, ar gyfer gwaith academaidd neu weinyddol. Gall y ddogfen derfynol ei hallforio fel ffeil PowerPoint, Word, Pdf, gwefan neu ddelwedd, a gall y delweddau ar y map fod yn llonydd neu wedi animeiddio (mae miloedd o luniau ar gael yn llyfrgell iMindMap).

Gallwch lawr lwytho copi o'r meddalwedd yn www.imindmap.com. Os oes gennych sylwadau am y fersiwn Cymraeg cysylltwch â Dilwyn Owen yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg do@bromorgannwg.org.uk 01446 450280

Gwefan Adnoddau "RHANNU"

Mewn ymateb i'r **prinder** adnoddau cyfrwng-Cymraeg **galwedigaethol** a brofid yn y gorffennol gan y sector addysg Gymraeg, penderfynodd Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru (APADGOS) **sefydlu gwefan** a elwir RHANNU (www.rhannu.org.uk).

Sefydlwyd RHANNU gyda'r bwriad o alluogi **athrawon a darlithwyr cyrsiau ôl-14** mewn meysydd galwedigaethol i osod eu hadnoddau personol ar y wefan er mwyn eu rhannu gydag eraill ar raddfa genedlaethol, gan ddiwallu unrhyw angen brys am adnoddau cyfrwng-Cymraeg.

Cyfyngir y cynllun ar y cychwyn i adnoddau yn y meysydd galwedigaethol canlynol:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Twristiaeth a Hamdden/Teithio
- Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant

Er hynny, disgwylir y gellir ei ehangu i gwmpasu meysydd galwedigaethol eraill yn fuan.

Dylid pwysleisio mai cynllun cyflenwol yw RHANNU ac nid yw'n dyblygu swyddogaeth gwefan GCaD-Cymru na rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad i gomisiynu adnoddau o ansawdd uchel gan ddatblygwyr proffesiynol. Er hynny, bydd yn dod o dan adain reolaethol GCaD yn y dyfodol agos.

Cynigia RHANNU **ddull newydd a hyblyg o gydweithio ar lein** er mwyn adeiladu **cronfa o adnoddau** wedi'u creu gan athrawon i ymateb i anghenion yn ddi-oed.

Dyma nodweddion gwefan RHANNU:

- Cynnig ffynhonnell deunyddiau wedi'u creu gan athrawon
- Mae modd llwytho a rhannu adnoddau ar unwaith
- Mae modd addasu / golygu deunydd
- Mae modd i ymarferwyr ddefnyddio'r wefan i gydweithio a gofyn am ddeunydd oddi wrth aelodau eraill.

Bwriedir sicrhau bod cynrychiolaeth eang o ymarferwyr yn y meysydd uchod yn bwrw ati i gyfrannu at y wefan drwy gofrestru a gosod eu deunyddiau arni a chyfranogi.

Cofrestrwch ar www.rhannu.org.uk Mae eisoes dros 40 o ddefnyddwyr cofrestredig.

Bydd Pennaeth pob ysgol a choleg eisoes wedi derbyn gwybodaeth am y cynllun cyffrous hwn. Gellir cael gwybodaeth bellach hefyd drwy gysylltu â chydlynwyr y meysydd canlynol:

Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant
Rhian Lloyd
E-bost: rhian.lloyd@menai.ac.uk
Ffôn: 01248-370125

Twristiaeth a Hamdden/Teithio
Simon Wooller
E-bost: Simon.Wooller@colegsirgar.ac.uk
Ffôn: 01554-748110

neu drwy gysylltu â rheolwr y prosiect:
Dr Hywel Glyn Lewis
E-bost:hywel-lewis@ywinllanwen.freeserve.co.uk
Ffôn: 01269-842413

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Robert Howells
Ysgrifennydd Cyffredinol: Gruff Hughes
Golygydd *Yr Athro:* Gwenllïan Dafydd
Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Nan Williams, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ
Ffôn: 01970-639950 Ffacs: 01970-626765
E-bost: ucac@athrawon.com www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro.*